TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

AAT Diploma in Accounting (Full Qualification) Level 3

Yn gryno

Mae'r cwrs yma yn olynu AAT Tystysgrif mewn Cyfrifeg Lefel 2 bydd yn eich galluogi i gael sgiliau pellach i fynd ymlaen yn y byd cyfrifeg.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych wedi cwblhau cwrs AAT Tystysgrif mewn Cyfrifeg Lefel 2

... Ydych eisiau gwella eich sgiliau a gwybodaeth am y maes cyfrifeg

... Ydych eisiau gweithio yn y byd cyfrifeg.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Cynigir y cwrs llawn amser proffesiynol Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifeg (AAT) mewn nifer cyfyngedig o leoedd ar draws de Cymru.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd y cwrs yn ymdrin ag ystod o dasgau cyfrifeg cymhleth, gan gynnwys cynnal cofnodion cyfrifeg cost a pharatoi adroddiadau ac enillion. Mae themâu allweddol drwy gydol y cymhwyster yn cynnwys technoleg, moeseg, cynaliadwyedd a chyfathrebu.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys pedair uned hanfodol:

•Ymwybyddiaeth Busnes

•Cyfrifyddu Ariannol: Paratoi Datganiadau Ariannol

•Technegau Cyfrifeg Rheoli

•Prosesau Treth ar gyfer Busnesau

Mae'r ddwy uned yn cael eu hasesu'n unigol drwy asesiadau diwedd uned ar gyfrifiadur.

Byddwch yn cael y cymwysterau canlynol:

Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg
Gweithgareddau Sgiliau
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set o sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn cael eich derbyn ar y cwrs yma, bydd rhaid i chi gael eich cyflogi yn y diwydiant a gallu dangos sgiliau perthnasol (yn unol â rhestr wirio AAT ar gyfer mynediad uniongyrchol) neu gwblhau Diploma Lefel 2 mewn Cyfrifeg a Busnes.

Bydd angen i chi ymrwymo'n llawn i fod yn bresennol, parchu eraill, dangos brwdfrydedd am y pwnc a chael hunan-gymhelliant. Cewch eich asesu'n barhaus a byddwch yn parhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma AAT Lefel 4 mewn Cyfrifyddu Proffesiynol, y gallwch ei astudio'n llawn amser neu'n rhan amser yn Coleg Gwent.
Ar ôl cwblhau'r cymhwyster, gall myfyrwyr ymgymryd yn llwyddiannus â rôl ym maes cyllid.

Gallai sgiliau a ddatblygir drwy'r cymhwyster hwn arwain at gyflogaeth fel:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

·Cynorthwyydd Cyfrifon

·Goruchwyliwr Cyfrifon Taladwy a Chostau

·Cyfrifydd Ariannol Cynorthwyol

·Archwilydd dan Hyfforddiant

·Rheolwr Credyd

·Cynorthwyydd Cyllid

·Swyddog Cyllid

·Goruchwyliwr Cyflogres

·Uwch Geidwad Cyfrifon

·Cynorthwyydd Treth.

Gwybodaeth Ychwanegol

I astudio cwrs AAT, mae angen i chi gofrestru â'r AAT fel myfyriwr. Bydd y coleg yn talu am eich cofrestriad gyda'r AAT. Bydd angen i chi hefyd gofrestru â'r coleg.

Bydd angen i chi brynu llyfrau gwaith, a fydd yn costio tua £70. Bydd gofyn i chi hefyd dalu blaendal o £35 am lyfrau tiwtorial. Bydd eich blaendal yn cael ei ad-dalu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, cyn belled â bod y llyfrau'n cael eu dychwelyd mewn cyflwr da.